**Gwenda Thomas AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LF/GT/1198/13

David Rees AC
Cadeirydd
Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

3 Rhagfyr 2013

Annwyl David,

**Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)**

Byddwch yn cofio, ar sail gohebiaeth flaenorol a'r ddadl Cyfnod 1, fy mod wedi ymrwymo i gyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig ynglŷn â Gofal Cymdeithasol Plant, y byddai'r datganiad hwn yn cael ei wneud yn flynyddol a'm bod yn bwriadu cyhoeddi'r datganiad cyntaf cyn diwedd mis Tachwedd.

Gan y bydd y datganiad hwn yn ymdrin â materion a fydd wedi bod yn destun diwygiadau arfaethedig yng Nghyfnod 2, rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi fy mod o'r farn ei bod yn bwysig bod unrhyw ddatganiad yn adlewyrchu trafodaethau a chytundebau'r Pwyllgor, a hynny er mwyn rhoi'r darlun mwyaf cyfredol â phosibl. Fy mwriad, felly, yw cyhoeddi'r datganiad ar ôl toriad y Nadolig.

Gallaf gadarnhau y bydd y Datganiad hefyd yn ymdrin â phedwar o'r argymhellion yn adroddiad eich Pwyllgor ar Gyfnod 1 (22, 42, 45 a 47).

Yn gywir

Gwenda.

**Gwenda Thomas AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Gwenda.Thomas@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*